# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
# 7 Tachwedd 2016

## SL(5)022 – Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth yng ngoleuni adrannau 30 i 34 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 o ran ceisiadau a wneir o dan y Ddeddf honno mewn cysylltiad â gorchmynion atal rhent a gorchmynion ad-dalu rhent. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi pŵer i dribiwnlys eiddo preswyl gau ceisiadau anweithredol.

Hefyd, mae'r Rheoliadau yn dirymu ac yn cydgrynhoi darpariaethau:

- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012;
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2014;
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014; a
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Tai (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:** Dyddiad heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar**: 18 Hydref 2016

**Yn dod i rym ar:** Dyddiad heb ei nodi

# SL(5)023 – Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gorchmynion Ad-dalu Rhent) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2016

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i ddarpariaethau adrannau 32 a 33 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n ymdrin â gorchmynion ad-dalu rhent. Yn benodol, maent yn ymdrin â gwneud gorchmynion ad-dalu rhent gan dribiwnlys eiddo preswyl ar gais awdurdod trwyddedu, awdurdod tai lleol neu denant annedd.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Tai (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar**: 17 Hydref 2016

**Fe'u gosodwyd ar**: 21Hydref 2016

**Yn dod i rym ar**: 24 Tachwedd 2016